

# Eiriol dros chwarae plant: manifffesto i Gymru

www.chwarae.cymru

# **Eiriol dros chwarae plant:** manifesto i Gymru

**Mae Chwarae Cymru yn galw ar i Lywodraeth nesaf Cymru barhau â'i hymrwymiad hirsefydlog i flaenoriaethu chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol i ddal ati i gefnogi gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol. Rydym yn eich annog i wneud ymrwymiadau traws-bolisi i sicrhau bod cyfleoedd plant i chwarae'n cynyddu a gwella.**

## Arweinyddiaeth strategol

Mae Chwarae Cymru'n annog Llywodraeth nesaf Cymru i barhau â'i thraddodiad cryf o gefnogi hawl plant i chwarae, trwy bolisi, deddfwriaeth a rhaglenni cyllido. Mae blaenoriaethu chwarae plant yn sicrhau buddiannau profedig i blant, teuluoedd a chymunedau, a hynny'n uniongyrchol ac yn y tymor hir.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

- **barhau i weithredu argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae**
- **ystyried gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae'n fwy eang fel rhan o unrhyw gynigion deddfwriaethol sy'n effeithio ar fabanod, plant a theuluoedd**
- **cynllunio'n strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant yn meddu ar ddealltwriaeth dda o werth chwarae**
- **gweithio i ddynodi cyllid ar draws portffolios gweinidogol er mwyn sicrhau bod chwarae plant a gwaith datblygu chwarae'n derbyn cyllid ac adnoddau digonol**
- **cefnogi Bil Pob Plentyn ac ymrwymo i sicrhau bod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i wrando'n weithredol ar, amddiffyn a chefnogi pob plentyn yng Nghymru. Bydd hefyd, yn benodol, yn atgyfnerthu hawl statudol plant i chwarae.**

## Cymdogaethau chwareus

Mae chwarae'n fwy na gweithgarwch fydd yn digwydd mewn gofodau dynodedig ac ar adegau penodol. Er mwyn i bob plentyn deimlo bod ganddynt ymdeimlad o berthyn, mae angen iddynt allu profi rhyddid bob dydd, symud o gwmpas eu cymdogaethau'n ddiogel, a chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau.

Mae cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn darparu ardaloedd chwarae hygyrch, strydoedd sy'n ddiogel, llwybrau teithio gyda chyfleoedd i chwarae'n fywiog wrth fynd, a mynediad i ddarpariaeth gwaith chwarae.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:**

- **sicrhau bod egwyddor chwarae'n cael ei chydnabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*, canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio a datblygu tir**
- **sicrhau bod pob menter sy'n berthynol i blant a theuluoedd yn cydnabod yn glir a chroyw bod chwarae'n hanfodol**
- **cefnogi darpariaeth gwaith chwarae cymunedol, wedi ei staffio, a drosglwyddir gan weithlu cymwysedig.**



## Ysgolion chwareus

Mae amser chwarae (amser egwyl i blant hŷn) – yr adegau hynny o'r diwrnod ysgol pan fydd plant o bob oed yn chwarae, cymdeithasu ac ymlacio gyda'u ffrindiau – yn elfen gyson werthfawr yn eu bywydau ysgol. Mae cael cyfleoedd chwarae cyfoethog yn gysylltiedig ag amrediad eang o welliannau mewn sgiliau academaidd, ymddygiad, perthnasau, mwynhad a chyfaddasu i fywyd ysgol.

Mae plant yn dweud bod amser chwarae'n rhan bwysig o'u diwrnod ysgol. Er hyn, mae amser chwarae yn yr ysgol dan fygythiad yng Nghymru. Mae plant yn dweud eu bod wedi colli amser chwarae er mwyn dal i fyny gyda gwaith neu oherwydd bod un o'r athrawon yn teimlo eu bod wedi camymddwyn. Yn ogystal, mae ystadegau'n dangos bod cyfleoedd amser chwarae yn y prynhawn yn lleihau o ran amser ac amlder.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru:**

- **i'w gwneud hi'n orfodol i'r diwrnod ysgol gynnwys isafswm penodol o amser ar gyfer amser chwarae**
- **i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* Llywodraeth Cymru, sy'n datgan yn gwbl glir na ddylid dal chwarae'n ôl oddi wrth blant yn yr ysgol fel math o gosb**
- **i orchymyn cyrff llywodraethu ysgolion i agor eu gofod awyr agored ar gyfer chwarae ar ôl ysgol, ble bynnag fo'n ymarferol**
- **i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cael mynediad i hyfforddiant chwarae, un ai fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol neu trwy Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.**

## Chwarae'n ystod adegau o ansicrwydd

Mae cyfleoedd i chwarae'n arbennig o fuddiol yn ystod adegau o ansicrwydd. Mae llawer o blant yng Nghymru wedi'u dadleoli oherwydd digartrefedd, yn treulio amser yn yr ysbyty neu'n cael eu gofalu amdanynt mewn cyfleusterau preswyl. Yn aml, gall cyfleoedd i chwarae gael eu hesgeuluso yn y lleoliadau hyn.

Yn ystod ac yn union wedi adegau o ansicrwydd, mae chwarae:

- yn cynnig ymdeimlad o normalrwydd, hwyl a llawenydd i blant yn ystod profiad o golled, arwahanrwydd a thrawma
- yn helpu plant i oresgyn poen emosiynol a theimlo ymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau eu hunain
- yn helpu plant i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw
- yn cynnig cyfle i blant archwilio eu creadigedd eu hunain.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru:**

- **i ddatblygu safonau a chanllawiau ar gyfer chwarae mewn lleoliadau gofal iechyd**
- **i sicrhau agwedd strategol tuag at lwybrau hyfforddiant a chymwysterau ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio ar draws gofal iechyd a gofal preswyl**
- **i sicrhau bod darpariaeth chwarae'n cael ei ystyried fel rhan o bob asesiad anghenion digartrefedd wrth ddynodi llety dros dro ar gyfer teuluoedd.**

## Buddiannau chwarae

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant.

Ceir cronfa hirsefydlog o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i fywydau plant. Mae hyn yn dangos bod chwarae'n cyfrannu at les uniongyrchol a hir dymor plant, at eu hiechyd corfforol ac at eu hiechyd meddwl a'u gwytnwch. Mae nifer o astudiaethau wedi dod i'r casgliad bod chwarae yn:

- **cefnogi cymdeithasoli:** pan maent yn chwarae, bydd plant yn rhyngweithio gydag eraill, yn creu cysylltiadau gyda chyfoedion, yn delio gyda gwrthdaro, ac yn dysgu parch a goddefgarwch.
- **hanfodol ar gyfer iechyd a lles da:** mae bod yn fywiog trwy chwarae'n cyfrannu at iechyd a hapusrwydd plant, gan eu helpu'n gorfforol ac yn emosiynol.
- **cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach:** mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, i wneud cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.
- **cefnogi dysg a datblygiad:** mae chwarae'n adeiladu strwythurau'r ymennydd, yn ogystal â sgiliau gwerthfawr fel meddwl critigol.
- **cynyddu gwytnwch:** mae chwarae'n cynyddu gallu plant i reoleiddio emosiwn, yn rhoi hwb i'w hyder a chreadigedd gan eu galluogi i ymdopi gyda straen a heriau trwy gydol eu bywyd.

## Chwarae Cymru

Chwarae Cymru yw'r elusen genedlaethol dros chwarae plant. Rydym yn rhagweld dyfodol ble caiff chwarae ei werthfawrogi yng Nghymru am ei fod yn hanfodol i blentyndod iach a hapus. Gwlad ble mae plant yn rhydd i archwilio, darganfod, datblygu a thyfu drwy chwarae. Rydym yn ymgyrchu dros Gymru chwarae-gyfeillgar trwy arwain gyda bwriad, cydweithio gyda chynwysoldeb, addysgu gyda brwdfrydedd, a chefnogi gyda sensitifrwydd.

Fe gydweithiom yn agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei deddfwriaeth digonolrwydd cyfleoedd chwarae arloesol. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Fe wnaethom hefyd ddrafftio'r adroddiad ar gyfer Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2022) a'r papur cefndir cysylltiedig.



Chwarae Cymru Play Wales

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926 © Chwarae Cymru Gorffennaf 2025